**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 15 Ionawr 2019**

**Presennol:** Cyng. Beryl Salisbury (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng  Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Sharon Wyn Parry
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

**Ymddiheuriadau:** Dim

**2. Datganiad o ddiddordeb: - dim.**

**3. Cofnodion cyfarfod 16 Hydref 2018**

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gwilym Jones.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Cae Chwarae - Penderfynwyd: derbyn dyfynbris o £647 a TAW gan MacVenture Playground Ltd. ar gyfer gosod pedair sedd swing ac atgyweirio'r wyneb diogelwch o flaen y sleid.
2. Hysbysfwrdd - Penderfynwyd: codi hysbysfwrdd wrth y neuadd bentref, ond roedd angen cael gwybod os oedd angen caniatâd cynllunio gyntaf.
3. Priffyrdd – Mynegwyd pryder am gyflwr Lôn Minffordd. O ystyried y nifer o gerbydau trwm sy'n teithio i Gamp Fali awgrymwyd y dylid gofyn i'r Llu Awyr gyfrannu at y gwaith cynnal a chadw'r ffordd. Penderfynwyd gofyn i CSYM am eu rhaglen cynnal a chadw.
4. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

**5.1** Penderfyniadau cynllunio
**32LPA1047/CC  Tre Ifan, Caergeiliog.**

Cais i godi 6 annedd ynghyd â mynediad i gerbydau – wedi ei ganiatau. Penderfynwyd ysgrifennu at CSYM i'w hatgoffa y dylai pobl leol gael blaenoriaeth pan fydd rhain yn barod i'w gosod.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………..

**5.2** Ceisiadau Cynllunio

**HHP/2019/5 - 1 Ednyfed Terrace, Caergeiliog**

Dymchwel y modurdy presennol ac chodi modurdy newydd yn ei le - dim gwrthwynebiad.

Llythyr gan Sirius Planning – yng. Ffermydd Solar

Yn cysylltu ar ran eu client - Low Carbon Ltd. ynghylch fferm solar arfaethedig gydag unedau storio pŵer (batris). Roeddent yn ystyried addasrwydd tua 110 hectar o dir sydd wedi'u clystyru rhwng Caergeiliog, Llanfihangel yn Nhywyn a Bryngwran.

Roedd yn amlwg bod hwn yn fater o bryder i breswylwyr cyfagos. Penderfynwyd gwahodd y cwmni i anfon cynrychiolydd i'r Cyngor Cymuned.

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith
2. Fforwm Cyswllt - cofnodion a dyddiad y cyfarfod nesaf
3. Rhannu gwybodaeth digwyddiadau iechyd a lles Ynys Mon
4. Cronfa Gwella Amgylchedd a Chymunedau
5. Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon Un Llais Cymru 17.1.2019
6. Mapio Llifon Cyfarfod mis Tachwedd - wedi'i aildrefnu ar gyfer 7.1.2019
7. Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol

**7. Materion Ariannol**

**Yn y banc ar 15.1.2019 Cyfrif Cyfredol £13,786.61 Cyfrif Cadw £3,926.83**

**8.** **Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Tach. a Rhag.) | £367.00 | HMRC (TWE) | £90.80 |

**Cytunwyd i dalu'r rhain.**

**9. Cyfrifon 18/19**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a chysoniad banc am y cyfnod hyd at 31.12. 2018.

Cytunwyd y byddai'r clerc yn gofyn i Mr H. Lloyd Jones a fyddai'n fodlon cynnal archwiliad mewnol eto eleni.

**10 Presept 2019/20**

Cafwyd trafodaeth fanwl am rhagolygon o gyfrifon hyd at 31 Mawrth 2019, y gwariant a ragwelir ar gyfer 2019/20 a'r cronfeydd wrth gefn disgwyliedig ar 31 Mawrth 2019 a cytunwyd i ofyn am presept o £ 14,500 ar gyfer 2019/20.

**11. Gohebiaeth Eraill: cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref
2. Bwletin Un Llais Cymru
3. Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2019-20 - derbyniwyd
4. SP Energy Networks - Update on Construction Activities near Caergeiliog
5. Sessiwn Hyfforddiant Un Llais Cymru - Ionawr - Mawrth 2019:
   29.1.2019 Deall y Gyfraith, 19.2.2019 - Gwneud ceisiadau grant effeithiol.
6. Terfyn Gwariant Dewisol Adran 137 ar gyfer 2019-20

**12. Unrhyw fater arall: dim**

**13. Cyfarfod Nesaf – 19 Chwefror 2019**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….